Archwilio Cymru
Audit Wales

# Gweithredu argymhellion Archwilio Cymru i wella dull digidol y Cyngor

Cyngor Sir Fynwy

Chwefror 2026

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004).

**© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025**

Cewch ailddefnyddio’r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o’r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os ydych yn ei ailddefnyddio, rhaid i’ch ailddefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun sy’n gamarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae’n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle’r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Os oes angen cymorth arnoch gyda’r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o’n cyhoeddiadau arnoch mewn
fformat neu iaith arall:

- Ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni: post@archwilio.cymru

Cewch ddefnyddio’r Gymraeg neu’r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb
yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

# Cynnwys


Ciplun archwilio 4

Ein canfyddiadau 5

Atodiadau 8

1 Ynglŷn â'n gwaith 9

2 Strategaeth Ddigidol – Ffurflen Ymateb Sefydliadol 2024 11

# Ciplun archwilio

## Yr hyn yr oeddem yn edrych arno

1 Ym mis Mehefin 2024, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad i Gyngor Sir Fynwy (y Cyngor) yn dilyn archwiliad ar ei strategaeth ddigidol. Gwnaethom bedwar argymhelliad. Ym mis Mehefin 2024, derbyniodd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor yr adroddiad hwn ac ymateb rheoli'r Cyngor i fynd i'r afael â'r argymhellion (gweler **Atodiad 2**). Edrychodd yr archwiliad hwn ar a yw'r Cyngor yn mynd i'r afael â nhw.

2 Fe wnaethom hefyd edrych ar sut mae'r Cyngor yn olrhain ac yn adrodd ar ei gynnydd ar argymhellion archwilio allanol, gan ddefnyddio'r argymhellion strategaeth ddigidol i asesu ei drefniadau.

3 Fe wnaethom gynnal yr archwiliad hwn ym mis Tachwedd 2025.

## Pam mae hyn yn bwysig

4 Mae adroddiadau archwilio allanol yn rhoi barn annibynnol ar drefniadau'r Cyngor. Mae ein hadroddiadau'n cynnwys argymhellion i'r Cyngor pan fyddwn yn nodi bylchau neu wendidau yn ei drefniadau. Gall gweithredu ar yr argymhellion hyn helpu i wella parhaus. Dyna pam mae'n bwysig i'r Cyngor gael trefniadau effeithiol i fonitro a herio cynnydd yn eu herbyn.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

5 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r argymhellion strategaeth ddigidol ac mae ei drefniadau hirsefydlog yn cefnogi goruchwylio argymhellion archwilio allanol.

## Yr hyn a argymhellir gennym

6 Ni wnaethom unrhyw argymhellion.

# Ein canfyddiadau

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael ag argymhellion y strategaeth ddigidol

7 Cymeradwyodd y Cyngor ei Strategaeth Ddigidol a Data newydd 2024–2027 (y Strategaeth) erbyn ei ddyddiad cau penodol o Orffennaf 2024. Mae'n un o nifer o strategaethau galluogi sydd wedi'u cynllunio i helpu'r Cyngor i gyflawni ei Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Mae'r Strategaeth a'i asesiad effaith integredig ategol yn dangos bod y Cyngor wedi ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy.

8 Mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau cadarn ar waith i fonitro ac adolygu cyflawni'r Strategaeth. Er enghraifft, yn ddiweddar sefydlodd Fwrdd Digidol, Data a Thechnoleg a Grŵp Llywio i ddarparu goruchwyliaeth reolaidd. Mae'r Cyngor hefyd yn ymgorffori proses adolygu perfformiad flynyddol newydd ar gyfer ei strategaethau galluogi. Mae hyn yn rhoi cyfle i aelodau craffu ddeall a herio cynnydd yn erbyn y cynllun cyflawni sy'n sail i'r Strategaeth. Er bod y cynllun cyflawni yn cynnwys canlyniadau, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo fesur effaith a gwerth am arian ei brosiectau digidol yn well ac mae'n datblygu fframwaith i helpu gyda hyn.

9 Ymgysylltodd y Cyngor ag ystod o randdeiliaid mewnol wrth ddatblygu'r Strategaeth. Mae hefyd yn parhau i gynnwys staff trwy fyrddau a rhwydweithiau sefydledig. Er nad yw'r Cyngor wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â dinasyddion ar y Strategaeth, mae'n bwriadu ymgynghori â nhw ar brosiectau digidol sydd i ddod. Nod ei blatfform newydd 'Let's Talk Monmouthshire' yw sicrhau bod mwy o bobl yn gallu dweud eu dweud.

10 Mae'r Cyngor yn mynd ar drywydd cyfleoedd cydweithredol. Cytunodd y Cyngor ym mis Mai 2025 i ymestyn ei gydweithrediad presennol yn y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir[1] , sy'n darparu gwasanaethau technoleg a gallu rhwydwaith, i sefydlu gallu digidol, data a thechnoleg cydweithredol i gyflawni a chefnogi ei anghenion digidol a data.

11 Ar y cyfan, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth ymateb i'n hargymhellion strategaeth ddigidol.

## Mae gan y Cyngor drefniadau priodol sy'n cefnogi goruchwyliaeth uwch swyddogion ac aelodau o argymhellion archwilio allanol

12 Mae gan y Cyngor drefniadau hirsefydlog i oruchwylio argymhellion archwilio allanol. Mae'r Prif Swyddog a'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn derbyn adroddiadau archwilio allanol ac yn goruchwylio cwblhau ffurflen ymateb rheolwyr (MRF) y Cyngor. Nid yw adroddiadau a MRFs yn cael eu hystyried yn rheolaidd gan yr uwch dîm arweinyddiaeth cyfan (SLT). Fodd bynnag, mae'r Dirprwy Brif Weithredwr yn derbyn yr holl adroddiadau ac, ynghyd â thîm perfformiad y Cyngor, gall eu rhannu'n ehangach fel y bo'n briodol. Mae hyn yn bwysig gan fod canfyddiadau ac argymhellion archwilio weithiau'n berthnasol i sawl cyfarwyddiaeth.

13 Mae swyddogion perfformiad yn gyfrifol am olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio. Maent yn coladu ac yn herio diweddariadau gan swyddogion cyfrifol, gan gynnwys penderfyniadau i gau argymhellion. Yna maent yn defnyddio'r wybodaeth i gynhyrchu adroddiadau diweddaru chwe mis. Nid yw'r SLT llawn yn monitro nac yn herio cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio allanol yn rheolaidd. Ond mae'r Dirprwy Brif Weithredwr yn derbyn yr adroddiadau diweddaru chwe mis, gan ddarparu uwch oruchwyliaeth a'r cyfle i godi unrhyw bryderon.

---

[1] Amdanom Ni | Gwasanaeth Adnoddau Cyffredin

14 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (GAC) yn chwarae rôl allweddol wrth fonitro a chraffu ar ymateb y Cyngor i argymhellion. Mae'n derbyn yr holl adroddiadau archwilio allanol a'r MRFs perthnasol. Gall hefyd gyfeirio adroddiadau at bwyllgorau eraill i'w craffu ymhellach os oes angen. Mae hyn yn sicrhau bod aelodau'n ymwybodol o ganfyddiadau archwilio allanol a'u bod yn cytuno ar y camau gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion cyn i'r rhain gael eu rhoi ar waith.

15 Mae'r GAC hefyd yn derbyn diweddariadau cynnydd chwe mis sy'n disgrifio'r camau a gymerwyd ac yn esbonio pam mae rhai argymhellion wedi'u cau. Maent yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i aelodau adolygu a herio cynnydd a phenderfyniadau swyddogion i gau argymhellion.

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Edrychodd yr archwiliad hwn ar a oedd y Cyngor wedi mynd i'r afael â'r argymhellion yn adroddiad yr Adolygiad o'r Strategaeth Ddigidol a gyhoeddwyd gennym yn 2024. Fe wnaethom hefyd edrych ar drefniadau'r Cyngor i oruchwylio ac adrodd ar gynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion archwilio allanol. Fe wnaethom ddefnyddio argymhellion y Strategaeth Ddigidol i asesu'r trefniadau hyn.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Atebodd yr archwiliad hwn y cwestiynau canlynol:

- A yw'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r argymhellion a gynhwysir yn adroddiad Adolygu'r Strategaeth Ddigidol dyddiedig Mehefin 2024?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i oruchwylio sut mae'n mynd i'r afael ag argymhellion archwilio allanol?

### Meini Prawf

Fe wnaethom asesu:

- a yw ymagwedd strategol y Cyngor at ddigidol yn cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy;
- a yw’r Cyngor wedi gwella sut mae'n monitro ac yn adolygu ei strategaeth ddigidol;
- a welodd y Cyngor ei ymgysylltiad i gynnwys y rhai sydd â diddordeb yn cyflawni ei ddull o ddigidol;

- a yw’r Cyngor wedi cydweithio i wella canlyniadau a gwerth am arian;
- a yw aelodau ac uwch swyddogion yn derbyn adroddiadau rheoleiddiwr allanol;
- bod cofnod canolog o argymhellion allanol;
- bod aelodau ac uwch swyddogion yn derbyn diweddariadau ac yn darparu her;
- bod aelodau ac uwch swyddogion yn penderfynu pryd mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael ag argymhellion archwilio allanol; ac
- os deallir effaith mynd i'r afael ag argymhellion archwilio allanol.

## Dulliau

Fe wnaethom ddarllen dogfennau a chyfweld â swyddogion ac aelodau.

# 2 Strategaeth Ddigidol – Ymateb Sefydliadol 2024

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb sefydliadol<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A1 | **Cryfhau ymagwedd strategol y Cyngor at ddigidol**<br>• Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg ddigidol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau, dylai'r Cyngor ddatblygu a mynegi'n glir ymagwedd strategol at ddigidol. Wrth ddatblygu ei ddull gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | Roedd datblygu strategaeth ddigidol wedi bod ar y gweill ar ddechrau'r adolygiad archwilio ac wedi cael ei thrafod cyn a thrwy'r broses archwilio. Mae'r gwaith hwn yn parhau ac fel rhan o ddatblygiad ehangach o strategaethau galluogi a'r cyfleoedd i alinio a blaenoriaethu ymdrechion yn well sy'n caniatáu i uchelgeisiau'r Cyngor gael eu cyflawni i'r graddau y mae digidol a data yn ymwneud â nhw.<br><br>Datblygu Strategaeth Ddigidol a Data wedi'i diweddaru ar gyfer y Cyngor. | Gorffennaf 2024 | Dirprwy Brif Weithredwr |
| **Adolygwyd A1 (AC)**<br>Dylai datblygu strategaeth ddigidol a data newydd y Cyngor amlinellu ymagwedd strategol y Cyngor at ddigidol. Ymateb digonol o ran datblygu'r strategaeth, er y bydd yn bwysig sicrhau bod y Cyngor yn cyfathrebu'r strategaeth yn glir er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth eang a chyffredin yn cael ei chyflawni ar draws ei wasanaethau a'i arweinyddiaeth. | | | | |
| A2 | **Trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu**<br>• Er mwyn sicrhau ei fod yn deall yn well effaith ei strategaeth ddigidol a'r cynnydd wrth ei chyflawni dros y tymor byr, canolig a hir, dylai'r Cyngor | Bydd monitro a gwerthuso canlyniadau yn bwysig i'r strategaeth. Ar lefel weithredol, mae hyn eisoes ar waith ac mewn perthynas â phrosiectau digidol presennol sy'n ymddangos o fewn y map ffordd digidol a'r blaengynllun sydd eisoes wedi'i sefydlu. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gryfhau ei drefniadau ar gyfer monitro ac adolygu cyflawni'r strategaeth. | Datblygu Strategaeth Ddigidol a Data wedi'i diweddaru ar gyfer y Cyngor, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu. | Gorffennaf 2024 | Dirprwy Brif Weithredwr |
| **Adolygwyd A2 (AC)**<br>Mae hwn yn ymateb digonol a phriodol. Dylid ymgorffori'r mecanweithiau monitro presennol i gwmpasu strategaeth, fel y gwnaeth ar hyn o bryd ar gyfer prosiectau unigol. | | | | |
| **A3** | **Cryfhau cyfleoedd ymgysylltu**<br>• Er mwyn helpu i sicrhau bod ei adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol, dylai'r Cyngor gryfhau ymgysylltiad ag amrywiaeth lawn y rhai sydd â diddordeb mewn cyflawni ei ymagwedd strategol at ddigidol. | Mae'r egwyddorion dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr wedi'u hymgorffori ym methodoleg a dull y prosiect sydd eisoes ar waith. Mae hyn yn sicrhau bod ymgysylltiad ac adborth cwsmeriaid a defnyddwyr yn cael eu ffactorio wrth gyflwyno prosiectau digidol unigol.<br><br>Cwblhau ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i lywio datblygiad y strategaeth ddigidol a data. | Gorffennaf 2024 | Dirprwy Brif Weithredwr |
| **Adolygwyd A3 (AC)**<br>O fewn ein canfyddiadau, nodwyd nad oedd rhanddeiliaid wedi'u mapio ac nad oedd cynlluniau ar waith i gynnwys cymunedau penodol a defnyddwyr gwasanaeth yn y broses o ddylunio a datblygu strategaeth newydd. Bydd yn bwysig bod hyn yn rhan o'r broses ddatblygu; nid dim ond ymgysylltu a chyfathrebu digidol ar draws gwasanaethau. | | | | |
| **A4** | **Gweithio ar y cyd** | Wrth ddatblygu a chyflwyno ein strategaeth ddigidol a data, byddwn yn parhau i sicrhau bod bwriad strategol a rhaglenni | Gorffennaf 2024 – | Dirprwy Brif Weithredwr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| • Er mwyn helpu i sicrhau bod y Cyngor yn nodi'r holl gyfleoedd i wella gwerth am arian yn ei ymagwedd strategol at strategaeth ddigidol, dylai'r Cyngor fapio'r holl gyfleoedd cydweithredol posibl i gyflawni ei strategaeth ddigidol nesaf. | gwaith yn cael eu halinio'n briodol i ddiwallu ein hanghenion digidol a data, gan gynnwys cyfleoedd cydweithredol posibl.<br><br>Mae'r Cyngor eisoes yn cydweithio drwy'r trefniadau hirsefydlog gyda'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir (SRS) a'i awdurdodau lleol partner. Wedi'i ymgorffori yn y trefniadau llywodraethu SRS mae Bwrdd Busnes a Chydweithredu sy'n caniatáu i gyfleoedd cydweithredol gael eu nodi a'u symud ymlaen. Ar ben hynny, mae trefniadau sydd eisoes wedi'u sefydlu ar waith i weithio ar y cyd drwy CLILC a CDPS (Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol) Llywodraeth Cymru, ynghyd â rhwydweithiau ehangach sy'n caniatáu cydweithio a rhannu arferion gorau a nesaf (e.e. SOCITM). | datblygu strategaeth<br><br>Adolygiad o gyfleoedd cydweithredol fel rhan o gyflawni'r strategaeth. | |

**Adolygwyd A4 (AC)**

Roedd gwaith maes yn cydnabod cyfranogiad partneriaid sefydledig, gan gynnwys SRS a sefydliadau cenedlaethol fel CDPS a CLILC. Gallai cael dealltwriaeth lawnach o ba sefydliadau allai gefnogi datblygu a chyflawni strategaeth ddigidol y Cyngor, gan gynnwys partneriaid/rhanddeiliaid presennol neu newydd, sicrhau bod y Cyngor yn nodi'r holl gyfleoedd i wella gwerth am arian. Mae'r adolygiad arfaethedig, fel ymarfer mapio, yn ddatblygiad cadarnhaol.

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a’r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth lleol eraill. Mae’r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd defnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith â chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw term ambarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae’r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân ac mae ganddynt swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English